OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 66

## Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2010

## RHAN 3

Gweithredu yn dilyn methiant

**Darparu gwybodaeth**

**14.** Os yw'r awdurdod lleol o'r farn bod cyflenwad preifat yn ei ardal yn creu perygl posibl i iechyd dynol, rhaid iddo gymryd camau priodol i sicrhau bod y bobl sy'n debygol o yfed dŵr ohono—

(a) yn cael gwybod bod y cyflenwad yn creu perygl posibl i iechyd dynol;

(b) pan fo modd, yn cael gwybod pa mor ddifrifol yw'r perygl posibl; ac

(c) yn cael cyngor i'w galluogi i leihau unrhyw berygl posibl o'r fath.